| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 29 Tachwedd 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cynghorydd Huw Hilditch Roberts |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Karen Evans, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant / Geraint Davies, Pen Reolwr Addysg |
| **Teitl:** | **Rheoli Gwybodaeth a Rheoli TG Mewn Ysgolion** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 *Rhoi diweddariad ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â'r adroddiad a rannwyd yn wreiddiol ar 28 Medi 2016, a darparwyd rhagor o dystiolaeth ar 25 Ionawr 2017, a oedd yn rhoi manylion ynghylch Rheoli Gwybodaeth a Rheoli TG mewn ysgolion a gafodd sgôr Sicrwydd "Isel".*

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 *Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau yn y ffordd mae ysgolion yn rheoli gwybodaeth ers cyhoeddi adroddiad Archwilio Mewnol a roddodd 'Sicrwydd Isel'. Gofynnodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn cael sylw. Dyma'r ail adroddiad cynnydd.*

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Y Pwyllgor i adolygu cynnydd ac i benderfynu a oes angen adroddiad cynnydd pellach.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 *Tynnodd yr Adroddiad Archwilio Mewnol ar 9 Medi 2016 sylw at nifer o feysydd a oedd angen eu gwella ym meysydd Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Gwybodaeth mewn Ysgolion.*

4.2 *Mae'r prif faterion a godwyd yn yr adroddiad archwilio fel a ganlyn -*

- *44% o ysgolion heb gyflwyno Hysbysiad Prosesu Teg*
- *18 ysgol heb Bolisi Rheoli Cofnodion*
- *Rhai ysgolion heb Bolisi Diogelu Data*
- *Y rhan fwyaf o ysgolion heb Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol*
- *50% o ysgolion yn ansicr sut i ddelio â Cheisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain*
- *Nid yw cyfrineiriau'n ddigon cadarn*
- *36% o ysgolion heb brosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol*
- *Ysgolion angen gwneud Ystyriaethau Diogelwch Cwmwl pellach*
- *6 ysgol heb bolisi TCC.*

4.3 *Gwnaed gwelliannau cychwynnol drwy weithredu Offeryn Archwilio Statudol y mae pob ysgol yn ei gwblhau. Mae'r offeryn hwn yn rhoi gwybodaeth i'r ysgol*

*a'r Awdurdod Lleol am y lefelau o sicrwydd mewn meysydd gwahanol o reolaeth yr ysgol. Mae Rheoli Gwybodaeth yn un maes o Offeryn Archwilio Statudol yr Ysgol.*

*4.4 Mae canlyniadau'r archwiliad a gwblhawyd gan ysgolion ym mis Rhagfyr 2016 fel a ganlyn.*

| | *Disgrifiad o'r Farn* |
|---|---|
| *Gwyrdd* | *Ansawdd da / ardderchog* |
| *Melyn* | *Ansawdd derbyniol* |
| *Oren* | *Ansawdd gwael* |
| *Coch* | *Blaenoriaeth ar gyfer gwella* |

| ***Cwestiwn a holwyd*** | *G* | *M* | *O* | *C* |
|---|---|---|---|---|
| *A oes gan yr ysgol Bolisi Diogelu Data?* | *93%* | *0%* | *0%* | *7%* |
| *A ydych yn hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth bob blwyddyn?* | *73%* | *0%* | *0%* | *27%* |
| *A oes gennych unigolyn sydd â chyfrifoldebau am Ddiogelu Data?* | *96%* | *0%* | *0%* | *4%* |
| *A oes gennych system ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff cyfrinachol yn ddiogel?* | *94%* | *0%* | *0%* | *6%* |
| *Pa mor effeithiol yw eich rhaglen hyfforddi?* | *7%* | *25%* | *52%* | *16%* |
| *Pa mor effeithiol yw eich Hysbysiad Prosesu Teg?* | *34%* | *27%* | *23%* | *16%* |
| *A oes gennych bolisi TCC ac arwyddion clir?* | *55%* | *23%* | *9%* | *13%* |
| *Pa mor effeithiol ydych chi'n ymdrin â Cheisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain?* | *23%* | *32%* | *30%* | *15%* |
| *Pa mor ddiogel yw eich cronfeydd data sy'n dal gwybodaeth bersonol?* | *62%* | *32%* | *0%* | *6%* |
| *Ydych chi'n cloi cypyrddau, cabinetau ffeilio sy'n dal gwybodaeth bersonol?* | *41%* | *36%* | *16%* | *7%* |
| *A oes gennych bolisi desg glir?* | *7%* | *32%* | *27%* | *34%* |
| *A oes gennych Bolisi Rheoli Cofnodion* | *66%* | *0%* | *0%* | *34%* |
| *A oes gennych weithdrefn Torri Amodau Gwybodaeth?* | *31%* | *0%* | *0%* | *69%* |

*4.6 Roedd y broses archwilio'n glir wrth amlygu cefnogaeth a dargedwyd mewn ardaloedd penodol a gydag ysgolion penodol. Cymerwyd y camau canlynol i ymateb i ysgolion, a'u cefnogi, wrth iddynt Reoli Gwybodaeth.*

- *Anfonwyd Polisi Diogelu Data at bob ysgol i'w fabwysiadu.*
- *Mae pob ysgol bellach wedi cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.*
- *Mae pob ysgol wedi cael cyfarwyddyd i nodi unigolyn sydd â chyfrifoldebau am Ddiogelu Data.*
- *Mae pob ysgol yn deall contract Gwastraff Cyfrinachol Cyngor Sir Ddinbych, a gyda mynediad ato.*

- *Cyflwynodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hyfforddiant i Benaethiaid ar 9 Chwefror 2017.*
- *Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu hyfforddiant i Lywodraethwyr.*
- *Yn dilyn adolygiad, mae fersiwn newydd o'r Hysbysu Prosesu Teg wedi cael ei gyflwyno i bob ysgol, oherwydd newidiadau rheoleiddio.*
- *Mae polisi TCC dwyieithog newydd wedi'i anfon i bob ysgol i'w fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu.*
- *Mae hyfforddiant wedi cael ei roi ar gyfer ymdrin â Cheisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain*
- *Mae ysgolion wedi cael cyfarwyddyd bod angen i gyfrineiriau fod yn gymhleth. Taflen ffeithiau ar gyfrineiriau cymhleth a Diogelwch Data wedi'u hanfon.*
- *Mae gan Reolwyr Data ym mhob ysgol gyfrifoldeb i sicrhau fod pob cabinet yn cael eu cloi os ydynt yn dal gwybodaeth sensitif.*
- *Mae Gwybodaeth am Bolisi Desg Glir wedi cael ei anfon at bob ysgol, ac argymhellir yn gryf eu bod yn ei fabwysiadu.*
- *Polisi Rheoli Cofnodion yn cael ei anfon i bob ysgol i'w fabwysiadu.*
- *Gweithdrefn Torri Amodau Diogelwch Gwybodaeth yn cael ei hanfon at bob ysgol i'w mabwysiadu.*
- *Polisi Cyfryngau Cymdeithasol newydd wedi cael ei rannu ag ysgolion.*
- *Arweiniad ar ddiogelwch ICloud wedi cael ei roi i bob ysgol.*
- *Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar Ddiogelwch Data ar 15.02.17*

*4.7 Bydd angen hyfforddiant pellach pan ddaw'r GDPR newydd (Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol) i rym ym mis Mai 2018.*

*4.7 Mae'r Rheolydd Data yn gyfrifol ym mhob ysgol i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu dilyn, ac yn ystod tymor y gwanwyn/haf 2017, cafodd 10% o ysgolion ymweliad i sicrhau cywirdeb y Wybodaeth a roddir yn yr archwiliad. Cadarnhaodd y broses Sicrhau Ansawdd bod yr ymatebion gan ysgolion yn adlewyrchiad cywir o sefyllfa'r ysgol.*

*4.8 Mae swyddogion Sir Ddinbych wedi arwain y gwaith o lunio pecyn gwaith archwiliad ar-lein rhanbarthol sydd yn galluogi ysgolion a'r ALl i fonitro, cefnogi a herio. Yn flaenorol byddai archwiliadau papur a Survey Monkey yn cael eu defnyddio gan roi ciplun o'r wybodaeth. Erbyn hyn, gallwn weld, dadansoddi a chwestiynu gwybodaeth fyw. Mae gan bob ysgol enw defnyddiwr a chyfrinair ac maent yn llenwi'r archwiliadau gan ychwanegu camau gweithredu a dyddiadau terfyn. Gall staff ysgol, Llywodraethwyr a swyddogion yr Awdurdod Lleol bellach fonitro cynnydd a gwelliannau gan gynnig cefnogaeth a her lle y bo'n briodol. Bydd arddangosiad o'r pecyn archwilio ar-lein a gafodd ei lansio yn Venue Cymru ym mis Medi 2017 ar ran y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn cael ei gynnig yn y cyfarfod.*

*4.9 Cafodd yr Archwiliad Rheoli Gwybodaeth ei adolygu eto ym mis Hydref 2017 i fesur effaith y gefnogaeth a gynigiwyd. Mae'r ddau set o ganlyniadau wedi cael eu cymharu ac maent i'w gweld isod.*

| Cwestiwn a holwyd | G | | M | | O | | C | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagfyr 2016 | Hydref 2017 | Rhagfyr 2016 | Hydref 2017 | Rhagfyr 2016 | Hydref 2017 | Rhagfyr 2016 | Hydref 2017 |
| A oes gan yr ysgol Bolisi Diogelu Data? | 93% | 64% | 0% | 34% | 0% | 2% | 7% | 0% |
| A ydych yn hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth bob blwyddyn? | 73% | 76% | 0% | 17% | 0% | 2% | 27% | 0% |
| A oes gennych unigolyn sydd â chyfrifoldebau am Ddiogelu Data? | 96% | 83% | 0% | 17% | 0% | 0% | 4% | 0% |
| A oes gennych system ar waith ar gyfer gwaredu gwastraff cyfrinachol yn ddiogel? | 94% | 87% | 0% | 11% | 0% | 2% | 6% | 0% |
| Pa mor effeithiol yw eich rhaglen hyfforddi? | 7% | 24% | 25% | 46% | 52% | 24% | 16% | 6% |
| Pa mor effeithiol yw eich Hysbysiad Prosesu Teg? | 34% | 46% | 27% | 39% | 23% | 9% | 16% | 4% |
| A oes gennych bolisi TCC ac arwyddion clir? | 55% | 50% | 23% | 13% | 9% | 6% | 13% | 8% |
| Pa mor effeithiol ydych chi'n ymdrin â Cheisiadau gan Unigolion i Weld Gwybodaeth Amdanynt eu Hunain? | 23% | 37% | 32% | 39% | 30% | 13% | 15% | 4% |
| Pa mor ddiogel yw eich cronfeydd data sy'n dal gwybodaeth bersonol? | 62% | 74% | 32% | 27% | 0% | 2% | 6% | 0% |
| Ydych chi'n cloi cypyrddau, cabinetau ffeilio sy'n dal gwybodaeth bersonol? | 41% | 78% | 36% | 20% | 16% | 2% | 7% | 0% |
| A oes gennych bolisi desg glir? | 7% | 24% | 32% | 33% | 27% | 35% | 34% | 8% |
| A oes gennych Bolisi Rheoli Cofnodion | 66% | 33% | 0% | 35% | 0% | 17% | 34% | 15% |
| A oes gennych weithdrefn Torri Amodau Gwybodaeth? | 31% | 22% | 0% | 28% | 0% | 24% | 69% | 17% |

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

*Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.*

6. **Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
*Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.*

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad cyflawn yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

*Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.*

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**
*Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.*

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**
*Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.*

10. **Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
*Nodiadau adain: Am arweiniad ar asesiadau risg, cysylltwch â'r Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (neu Bennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad).*

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
*Amherthnasol - nid oes angen gwneud penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.*